# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 2

GOFYNION CWRICWLWM

*Cyffredinol*

### 19 Cyflwyniad

(1) Mae'r Bennod hon yn nodi gofynion cwricwlwm.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Bennod hon at gwricwlwm yn gyfeiriadau at gwricwlwm i unrhyw un o'r canlynol—

(a) disgyblion cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, ac eithrio'r rheini dros yr oedran ysgol gorfodol;

(b) disgyblion cofrestredig mewn ysgol feithrin a gynhelir;

(c) plant y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar eu cyfer.

(3) Yn y Bennod hon—

(a) mae cyfeiriadau at ddisgyblion yn gyfeiriadau at ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir, ac eithrio'r rheini dros yr oedran ysgol gorfodol;

(b) mae cyfeiriadau at blant, mewn perthynas ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, yn gyfeiriadau at blant y darperir yr addysg honno ar eu cyfer.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Cyffredinol. (See end of Document for details)*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 19 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(a), **Atod.**

**I3** A. 19 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(a)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Cyffredinol.